heddwch

haf cynnar 2006
rhif 39
am ddim (neu gyfraniad)

cnd cymru
yr ymgyrch dros ddiarfogi niwclear

# DILEU'R BOM

**Mae system arfau niwclear Trident Prydain yn cynnwys pedair llong danfor niwclear sy'n cario 48 o ergydion niwclear yr un. Mae pob ergyd niwclear 8 gwaith yn fwy pwerus na'r bom a ollyngwyd ar Hiroshima ym 1945. Fel un a arwyddodd y Cytundeb Atal Ymlediad (CAY), mae Prydain wedi ymrwymo i ddiarfogi niwclear llwyr, ac eto y mae, yn anghyfreithlon, yn cynllunio ar gyfer cenhedlaeth newydd o arfau niwclear i gymryd lle Trident.**

Dyma'r cyfle delfrydol i roi terfyn ar nonsens peryglus a ffiaidd y 'Bom Prydeinig'.

Mae Tony Blair yn dweud na phenderfynwyd hyd yma a geisir olynydd i Trident ac eto, yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae'r llywodraeth wedi gwario £300 miliwn ar adnewyddu'r Sefydliad Arfau Atomig yn Aldermaston, Berkshire lle mae hefyd yn cyflogi 1,000 o wyddonwyr a pheirianwyr ychwanegol. Mae hefyd wedi prynu 'archgyfrifiadur' sy'n gallu gwneud tri thriliwn o gyfrifion yr eiliad, a dyfeisiau lasar pwerus iawn i 'wneud profion' ar arfau.

*parhad ar dudalen 3*

yr hawl i brotesio

## Neiniau Difrifol a Chyfundrefnol

**Helen John a Sylvia Boyes yw'r ddwy gyntaf y gwyddom amdanynt i gael eu restio yn Lloegr o dan Adran 128 o Ddeddf newydd Troseddu Difrifol a Chufundrefnol a'r Heddlu 2005 (SOPCA) sy'n gwneud tresmasu ar lond dwrn o safleoedd milwrol penodol (safleoedd milwrol a niwclear Americanaidd ym Mhrydain yn bennaf) yn drosedd. Cafodd y ddwy eu restio ar y 1af o Ebrill 2006 oriau wedi i'r Ddeddf newydd ddod yn weithredol.**

Gallai'r 'drosedd' hon olygu dedfryd o 51 wythnos o garchar. Roedd y menywod wedi cerdded 15 troedfedd dros y llinell wyliadwraeth wrth fynedfa canolfan filwrol yr Unol Daleithau, NSA Menwith Hill yng Ngogledd Swydd Efrog. Roedd ganddyn nhw forthwyl o phâr bychan o follt-dorwyr yn ogystal â phosteri'n datgan eu gwrthwynebiad i'r ddeddf newydd. Roedden nhw wedi paratoi datganiadau yn condemnio polisi milwrol yr Unol Daleithau ac yn mynegi eu cefnogaeth i bobl Diego Garcia ac Ynysoedd Chagos a gafodd eu hel allan o'u cartrefi i wneud lle i ganolfannau milwrol Americanaidd.

*parhad ar dudalen 3*



"Hwn oedd yr arf eitha, i fod - ond fedra'i ddim o'i godi"

faslane 365


## DYDD Y DDRAIG GOCH YN FASLANE

**Beth fyddwch chi'n ei wneud ar y 13eg a'r 14eg Tachwedd eleni?**

Os nad yw eisoes wedi eu nodi yn eich dyddiadur, yna efallai bod angen ailgyfeirio eich radar. Mae'r ddau ddiwrnod eisoes yng nghalendr ymgyrchwyr heddwch Cymru gan mai nhw fydd dyddiau'r Ddraig Goch yn Faslane 365. Y 1af o Hydref 2006 fydd dyddiad cychwyn ymgyrch feiddgar o wrthsafiad sifil a fydd yn anelu arfau dinistr torfol at ganolfan llongau tanfor niwclear Trident yn yr Alban. Cynhelir gwarchae torfol parhaus gan wahanol grwpiau a fydd yn cymryd "shifft" o 48 awr yr un. Yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo i fynd â chymaint o bobl ag sy'n bosib yno i gymryd rhan. Ydy'ch grup chi wedi penderfynu ymuno â ni eto? Yn ardal y Coed Duon mae gan athrawon ddiddordeb am eu bod yn gweld y cysylltiad rhwng y £25-40 biliwn sydd wedi ei glustnodi ar gyfer system arfau newydd a'r angen dybryd am adnoddau mewn addysg. Rydym yn mynd â'r un ddadl at weision sifil ynglwn â'r diffyg mewn cronfeydd pensiwn. Os hoffech wybod mwy neu os hoffech i siarad wr ddod atoch, dewch i gysylltiad â fi a byddwn yn hapus i ddod atoch.

Marie Walsh

marie@riseup.net
(01495) 220 400
Del Harris (01974) 831 575



Paul Peter Piech

**yn tu fewn:**

bom Niwclear ar Aberystwyth
yn cadw Cymru ddi-niwclear
peidiwch ag ymosod ar Iran
adnoddau & cysylltiadau

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio I ateb gwir anghenion y ddynolryw a'r amgychledd.



# Pwy yw'r ffyliaid hyn?

## Nid diddanwyr plant mo'r Clowniau yma

***"Mae clowniau bob amser yn sôn am yr un peth, mae'n nhw'n sôn am newyn: newyn am fwyd, newyn am ryw, ond hefyd newyn am urddas, am hunaniaeth, am bwer. Yn wir, maen nhw'n codi cwestiynau ynglyn â phwy sy'n gorchymyn, pwy sy'n protestio." — Dario Fo***

Byddin anarchaidd, ddi-drais, lorweddol ei chyfansoddiad, o glowniau caci llachar (a phinc, yn aml) eu gwisg yw'r Clandestine Insurgent Rebel Clown Army (CIRCA). Mae ganddyn nhw broblem ddifrifol gyda ffolineb y byd a rhai syniadau ynglyn â sut mae gwella pethau.

Heb ddim arfau ond eu brwshys plu lliwgar, gwyddom iddynt ymuno yn y protestiadau G8 y llynedd, gan helpu'r heddlu a'r fyddin i gadw'r wyth dyn peryglus yna yn ddiogel dan glo yn Gleneagles lle na allent, efallai, wneud cymaint o niwed i'r byd. Mae byddin y clowniaid wedi ymweld â McDonalds i chwilio am yr hapusrwydd mewn Pryd Hapus, maen nhw wedi cymryd rhan mewn dathliadau Annibyniaeth oddi wrth America ar Orffennaf 4ydd yn RAF Fairford, ac wedi bod yn rhan o'r ymgyrch yn erbyn y rhyfel yn Irac.

Bydd clowniau CIRCA yn ceisio gwneud eu gwrthwynebwyr – plismyn arfog, yn aml – yn fwy dynol, a choncwest lwyddiannus iddyn nhw fyddai gorfodi gwên neu chwerthiniad gan wrthwynebyr sy'n ymddangos mor 'ffroenuchel'.

Er mwyn mynd yn glown gyda CIRCA rhaid i berson ddilyn cwrs hyfforddi difrifol o ddigrif er mwyn dod o hyd i'w 'clown mewnol'. Dywedir for yr hyfforddiant braidd yn gyfrifachol, yn rhesymol o swnllyd ac yn hynod ddiffygiol mewn peis cwstard.

Sefydlwyd grwpiau ('gyrroedd') o glowniau ledled y DU, ac mae gyr wedi ei sefydlu erbyn hyn yn Aberystwyth, o'r enw Byddin Boncyrs Clowniau Cymru, neu BBC Cymru yn gryno.

Mae'r gyr cymharol newydd yma eisoes wedi cael ei weld ar ddyddiadau neilltuol yn Aberystwyth, yn ceisio 'helpu' stondinau'r fyddin, y llynges a'r awyrlu yn ffair recriwtio'r is-raddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth i weithredu'n llai llyfn ac yn ceisio 'listio' eu hunain. Mae'n bosib iawn y bydd CIRCA wrthi yn ystod Fforwm Cymdeithasol Cymru.

**heddweithredu:**

**Os hoffech gael gwybod mwy am BBC Cymru neu CIRCA, cynhelir gweithdy ddydd Sul 30ain Ebrill o 10 i 11 y bore yn y Neuadd Ymarfer (gweler www.socialforumcymru.org.uk neu gofynnwch wrth y gwahanol ddesgiau gwybodaeth yn y Fforwm yn Aberystwyth am fwy o fanylion). Ond nid dim ond ar gyfer Fforymau Cymdeithasol mae Byddin y Clowniaid yn bod . . . dydy hi byth yn rhy hwyr i ymuno neu i ymweld â www.clownarmy.org**

# Protestwyr yn Atal Gwaith Contractwyr ar Safle Niwclear

**Mae'r grwp gweithredu uniongyrchol di-drais "Blocio'r Bildars" yn parhau i brotestio yn erbyn y cyfleuster laser profi arfau niwclaer Orion dadleuol yn ffatri Arfau Niwclear Aldermaston yn Berkshire.**

Ym mis Ebrill gweithredodd y protestwyr yn erbyn un o'r contractwyr sy'n gweithio ar brojectau adeiladu yn SAA Aldermaston ar hyn o bryd. Methodd cwmni loriau, cliro safleoedd a deunydd ffyrdd John Stacey, o Tadley, ddod â cherbydau allan o'u prif faes cerbydau am fwy na 40 munud wedi i Blocio'r Bildars gadwyno'r clwydi ynghau.

Galwyd heddlu Hampshire a Dyffryn Tafwys yno ond ni chafodd neb ei restio. Ni ddefnyddiodd yr heddlu eu hoffer torri ac yn y pen draw, defnyddiodd gweithwyr Stacey's eu bollt-dorwyr eu hunain i dorri'r gadwyn.

Yn y cyfamser, protestiodd grwp sylweddol mewn modd swnllyd a gweladwy dros ben y tu allan i SAA Aldermaston a chafodd dau berson eu restio.

**heddweithredu:**
**Bwriedir cynnal sawl blocêd arall. Am wybodaeth bellach ynglwn â Blocio'r Bildars, gweler www.blockthebuilders.org.uk**

## Cymod mewn Byd Amlhiliol

**Parchedig Aled Edwards,**
**Nos Iau, 4 Mai,**
**7yh,**
**Capel y Porth,**
**Porthmadog:**
**Cyfarfod cyhoeddus**
**Swyddog Cysylltiad**
**Cytûn â'r Cynulliad.**

**Trefnir gan Gell Dwyryd a Glaslyn o Gymdeithas y Cymod. Manylion oddi wrth (01766) 513 644**
**dwyryd@cymdeithasycymod.org.uk**

# Neiniau Difrifol a Chyfundrefnol

*parhad o dudalen 1*

**Gwneud Rhyddid Barn yn Drosedd**


Roedd Helen John yn un o'r menywod a gerddodd o Gaerdydd i wersyll awyrlu'r UD ar Gomin Greenham ym 1981 a sefydlu gwersyll heddwch Comin Greenham. Mae Sylvia a Helen wedi cael eu restio, eu cyhuddo a'u dedfrydu i garchar am fwy na dwsin o 'droseddau' blaenorol mewn gwahanol safleoedd a gwersylloedd niwclear a milwrol. Ar Ebrill 1af, aethant ati'n fwriadol i alw sylw at y newid sy'n gwneud rhyddid barn yn drosedd ac yn tanseilio ymhellach yr hawl i wrthdystio'n heddychlon. Dywedodd Sylvia Boyes: "Dwi'n gwbl barod i dorri'r gyfraith ac yn fodlon cael fy nghyhuddo a'm carcharu. Mae'r llywodraeth yn credu y gall wneud fel y mynn, bod ganddi gyhoedd goddefol sy'n derbyn popeth a deflir ato. Mae hyn yn destun pryder mawr i mi."

Ym marn ymgyrchwyr, ymgais ddidrugaredd arall yw SOPCA i fygu protestio cyfreithlon tan gochl y rhyfel yn erbyn braw. Ym mis Hydref llynedd, cafodd Maya Evans ei chyhuddo am ddim ond darllen allan enwau milwyr Prydeinig a laddwyd yn Irac. Roedd yn destun embaras i'r Blaid Lafur pan gafodd Walter Wolfgang, gweithredwr dros heddwch ac ymgyrchydd CND oedrannus, ei gymryd i'r ddalfa am heclo Jack Straw yng Nghynhadledd y Blaid Lafur.

**Safleoedd protestio cyson**

Mae NSA Menwith Hill, canolfan ysbïo'r Unol Daleithau ger Harrogate, yn monitro negeseuon a thelegyfathrebion ag Ewrop, yn anghyfreithlon. Bydd negeseuon sy'n dod drwy Brydain yn cael eu darllen gan y ganolfan, yn cynnwys galwadau ffôn preifat, negeseuon ffacs, ebost ac eraill. Mae pob safle sydd â thrwydded safle niwclear yn awr yn dod o dan SOPCA, yn ogystal â safleoedd eraill di-niwclear. Gall unrhyw safleoedd yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon gael eu dynodi'n gyflym iawn, am unrhyw reswm. Dywedodd y Weinyddiaeth Amddiffyn y dewiswyd y safleoedd oherwydd fod protestiadau cyson wedi cael eu cynnal yno, sydd, yn gwbl ddigywilydd, yn datgelu gwir bwrpas y ddeddfwriaeth.

**Ceir mwy o wybodaeth am SOPCA ar: www.tridentploughshares.org/article1405**

## In Pursuit of Alternatives to War

### Peace Campaigning in the Eighties
### A Chronicle from Wrexham

Casglwyd ynghyd gan Owen Hardwicke
O bob siop lyfrau dda £9.50
Bridge Books
ISBN 1-84494-24-1

*"Mae Owen Hardwicke wedi gwneud ffafr anferth â phob un ohonom. Mae'r tudalennau hyn yn llawn hanes byw, diweddar, wedi ei gyfoethogi gan ddyfyniadau diddorol gan awdurdodau o bob math.*
*Mae ei gyfrol yn gyfraniad cofiadwy i hanes brwydrau dynol dros heddwch ym mhedwar ban y byd yn ystod y pum mlynedd ar hugain diwethaf.*

Bruce Kent a Valerie Flessati

# Peidiwch ag Ymosod ar Iran! Dewch â'r Milwyr Adre o Irac!

Ymunodd cefnogwyr CND Cymru â'r 100,000 o bobl a gymerodd ran yn y gwrthdystiad ar Fawrth 18fed gan Glymblaid Atal y Rhyfel Llundain ac CND. Thema'r brotest oedd 'Peidiwch ag Ymosod ar Iran! Dewch â'r Milwyr Adre o Irac!' ac roedd yn rhan o brotest fyd-eang, gyda gwrthdystiadau eraill yn Rhufain, Efrog Newydd, Sydney, Dulyn a Thoronto.

Gorymdeithiodd protestwyr Llundain heibio i swyddfeydd y Twrnai Cyffredinol yr Arglwydd Goldsmith, i danlinellu anghyfreithlondeb y rhyfel a goresgyniad Irac. Ymunodd Côr Cochion â chorau sosialaidd eraill i greu protest gerddorol swnllyd.




# CND yn annog pawb i wrthwynebu ymosodiad ar Iran

***Mae'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear yn poeni'n ddybryd ynglyn â sylwadau diweddar yn y wasg for ymosodiad gan yr UD ar Iran yn 'anorfod' os bydd Teheran yn gwrthod*** **ufuddhau i ofynion Cyngor Diogelwch y CU. Ni chafwyd dim tystiolaeth hyd yn hyn i ddangos fod rhaglen bwer niwclear Iran yn cael ei dargyfeirio i mewn i raglen arfau niwclear. Mae gan Iran hawl, o dan y Cytundeb Atal Ymlediad niwclear, i ddatblygu pwer niwclear i ddibenion heddychlon. Mae Iran hefyd, ers 2003, wedi cydymffurfio'n llwyr â Phrotocolau Ychwanegol a chytundebau diogelu y Cytundeb Atal Ymlediad (CAY). Ar yr un pryd, mae gwledydd eraill a arwyddodd y cytundeb, fel Prydain, wedi methu cyflawni eu dyletswyddau o dan y Cytundeb, nid yn unig drwy beidio â gweithio tuag at ddiarfogi niwclear cyffredinol a chyflawn ond drwy ddechrau gweithio ar ddiweddaru eu systemau arfau niwclear.**

Mae CND yn galw ar lywodraeth Prydain i wrthwynebu unrhyw gamau i ymosod ar Iran, ac yn annog y llywodraeth i ddarbwyllo llywodraeth yr UD i beidio â gweithredu yn y fath fodd. Rhaid ceisio dialog a thrafodaethau pellach, gyda'r nod o ddod o hyd i ffordd heddychlon o ddatrys y broblem.

Meddai Jeremy Corbyn AS, Is-Gadeirydd CND Prydeinig: 'Rydym mewn sefyllfa enbyd o beryglus; ar ben y marwolaethau cynyddol yn Irac ac Afghanistan, byddai'n gwbl wallgo i ymosod ar Iran. Mae gan Israel arfau niwclear anghyfreithlon; nid yw Iran wedi tramgwyddo'r CAY. Rhaid i ni fod yn annibynnol ar obsesiynau polisi tramor yr UD a gwrthod cael ein tynnu i mewn, mewn unrhyw fodd, i ymosodiad ar Iran.'

Dywedodd Kate Hudson, Cadeirydd CND:
'Rydym yn ymwybodol o'r ffaith fod y llywodraeth yn gwneud yr un synau ag y gwnaeth yn y cyfnod cyn dechrau'r rhyfel yn erbyn Irac yn 2003. Rhaid osgoi ailadrodd y digwyddiadau trasig hynny. Ni fyddai ymosodiad ar Irac yn rhoi terfyn ar fater rhaglen niwclear Iran: byddai'n fan cychwyn trychineb pellach yn y rhanbarth a fyddai'n ehangu'r argyfwng presennol yn anferthol ac yn lledaenu cyflafan Irac i ardaloedd ehangach byth. Rhaid i'r llywodraeth ymwrthod ag unrhyw syniad o gefnogi'r fath gam gan yr UD a gwneud ei gorau glas i atal hynny.'

# DILEU'R BOM

*parhad o dudalen 1*

Mae arfau niwclear Prydeinig newydd yn cael eu datblygu yn ein henw ni a gyda'n harian ni.

## 10 rheswm pam mae'n rhaid atal arfau niwclear

1. Mae defnyddio arfau niwclear yn anfoesol a byddai'r canlyniadau'n ddeifiol. Maent yn lladd yn ddi-wahân ac maent yn llygru'r awyr, y ddaear a phob peth byw yn barhaol. Ni all yr un cymhelliad gwleidyddol neu "reidrwydd moesol" gyfiawnhau dileu pobl oherwydd eu cenedligrwydd neu eu hil neu gyfiawnhau defnyddio arfau niwclear yn erbyn dinasoedd er mwyn 'ennill rhyfel' a thrwy hynny achub bywydau pobl eraill.

2. Mae arfau niwclear yn anfoesol hyd yn oed os na chânt eu defnyddio. Gall gwledydd niwclear defnyddio'u bygythiad i ennill y llaw uchaf mewn trafodaethau am fasnach neu faterion rhyngwladol.

3. Mae arfau niwclear yn anghyfreithlon. Mae defnyddio – neu fygwth defnyddio – arfau niwclear yn gwbl groes i reolau'r gyfraith ryngwladol sy'n rheoli gwrthdaro arfog. Byddai sicrhau olynydd i Trident yn arwydd i wledydd heb arfau niwclear mai twyll gwleidyddol yw ymrwymiad y gwledydd sydd ag arfau niwclear i'r CAY.

4. Gellir cymhwyso'r dadleuon o blaid meddu arfau niwclear i unrhyw wlad ac arwain at y casgliad rhesymegol y dylai pob gwlad fod â nhw – mae gwladwriaethau fel Iran a Gogledd Korea eisoes yn dod i'r casgliad yma.

5. Mae cynhyrchu, lleoli a dadgomisiynu arfau a safleoedd niwclear yn beryglus ac yn creu llygredd, ac nid yw'n amgylcheddol gynaliadwy.


6. Byddai gosod system newydd yn lle Trident yn achosi i'r we ryngwladol o ymrwymiadau i'r CAY i ymddatod, gyda pherygl mawr, o ganlyniad i hynny, y gallai deunydd niwclear gradd-arfau syrthio i ddwylo amgen na gwladwriaeth arall, fel brawychwyr.

7. Mewn arolwg MORI/Greenpeace diweddar, dywedodd 54% o'r cyhoedd ym Mhrydain eu bod yn erbyn cael unrhyw system arall i gymryd lle Trident.

8. Dydy arfau niwclear ddim yn amddiffyniad o fath yn y byd yn erbyn 'brawychiaeth' ond mae sefydliadau niwclear ac arfau niwclear eu hunain yn cynnig targedau marwol i frawychwyr.

9. Byddai'n well gwario'r £25 biliwn yr amcangyfrifir fyddai cost olynydd i Trident ar atal gwrthdaro a'i fuddsoddi yn y gwasanaethau iechyd, addysg, cymdeithasol ac eraill ym Mhrydain.

10. Mae hwn yn wir yn gyfle unwaith-mewn-oes i atal yr anfoesoldeb, y llygredd a'r gwastraff yma. Os penderfynir archebu arfau niwclear newydd yn ystod y flwyddyn nesaf, prin iawn fod gobaith atal eu hymlediad am hanner canrif arall.



### heddweithredu:

Da chi, sgrifennwch at eich AS, at y papurau newydd, at weinidogion y llywodraeth, gan ddefnyddio'r wybodaeth uchod. neu cysylltwch ag CND Cymru (gweler cysylltiadau) neu gweler www.cndcuk.org A fyddech cystal ag anfon copïau atom o unrhyw atebion a dderbyniwch.

### Cyfeiriadau Defnyddiol:


Eich AS,
Tw'r Cyffredin,
Llundain SW1 2AA

Tony Blair,
10, Downing Street,
Llundain SW1 2AA

John Reid
Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn,
Old War Office,
Whitehall,
Llundain W1A 2EU

# Bom Niwclear ar Aberystwyth

**Mae mwy na 30,000 o arfau niwclear yn y byd, gyda mwy na mil ohonynt yn barod i gael ei lansio ar foment o rybudd, 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae'r nifer o wledydd sydd wrthi'n datblygu rhaglenni arfau niwclear gweithredol yn cynyddu. Mae nifer gynyddol o wledydd yn aros i gael mynediad i'r 'clwb niwclear', sy'n ei gwneud hi'n debycach y bydd cyflafan niwclear – damweiniol neu fwriadol – yn digwydd rywle ar y blaned. Mae'r argoelion y gallai arf niwclear gael ei ddefnyddio yn fwy heddiw o bosib nag yn ystod y rhyfel oer.**




Hiroshima Awst 1945

Tra bod llywodraethau'r UD a Phrydain yn gorchymyn yn rymus i wledydd eraill beidio â datblygu arfau dinistr torfol, maen nhw'u hunain wrthi'n symud tuag at ddatblygu a lleoli arfau niwclear llai ac, yn eu geiriau nhw, mwy 'defnyddiadwy'.

Mae gan Trident, system arfau niwclear bresennol Prydain, ergydion niwclear sydd yn gallu cynhyrchu ffrwydrad rhwng 0.6 kiloton a 100 kiloton o gryfder. Mae ymdrech ar y gweill yn awr i ddarbwyllo'r cyhoedd fod ergydion sy'n cynhyrchu ffrwydrad llai, fel un 1 kiloton, yn fwy 'derbyniol' nag, er enghraifft, y rhai a ddefnyddiwyd pan fomiwyd Hiroshima and Nagasaki ym 1945, y naill yn 15 a'r llall yn 21 kiloton o faint. Mae sôn am 'fostio byncars' a thargedu manwl-gywir o hirbell yn rhoi'r camargraff i'r cyhoedd y gallai'r rhain gynrychioli gwedd 'dderbyniol' arfau niwclear, a fyddai ag effaith gyfyngedig a phenodol heb effeithio nemor ddim ar yr ardal o gwmpas.

Wrth gwrs, mae'r cysyniad o 'ergyd niwclear derbyniol' yn gelwydd. Byddai pob un o'r taflegrau 1 kiloton 'derbyniol' yma yn achosi cyflafan a dinistr eang ac yn arwain at farwolaeth cannoedd o filoedd o bobl.

### Er enghraifft, pe bai bom niwclear 1 kiloton yn taro Neuadd y Dre, Aberystwyth, yn Sgwâr y Frenhines:

#### Camau

Wrth i'r bom niwclear ffrwydro ceid fflach mor ddisglair o oleuni nes llosgi retina'r llygad a dallu unrhyw un o fewn 13 km i'r ffrwydrad (mor bell i ffwrdd â Llanrhystud, Ponterwyd neu Aberdyfi). Byddai pelen dân anferth yn dilyn hyn, a thon o wres eithriadol, gwynt o nerth corwynt a thanchwa anferth o ymbelydredd. Byddai deunydd ymbelydrol yn disgyn ar draws yr holl ardal.

#### Gwres

O fewn 400m i'r ffrwydrad (hynny yw, holl ganol tref Aberystwyth) câi pob peth byw a phob adeilad eu dinistrio. Byddai unrhyw adeiladau a fyddai'n dal i sefyll hyd at 500m i ffwrdd – yn Nhrefechan, Penglais a Rhodfa'r Parc – yn cynnau ohono'u hunain. Byddai unrhyw un yn yr ardal yma yn derbyn llosgiadau trydydd-gradd a fyddai'n achosi i'r croen ymwahanu oddi wrth y corff.

Yn Llanbadarn Fawr, Penparcau a Chlarach (1500m i ffwrdd) byddai pobl yn derbyn llosgiadau ail-radd poenus a fyddai'n achosi pollethi. Byddai adeiladau yn y mannau hyn yn mynd yn wenfflam a byddai tanau'n ymledu i gyrion pellaf y dref.

#### Tanchwa yn yr Awyr:

Dim ond 1.5 eiliad y cymerai hi i'r danchwa gyrraedd pellter o 1500 metr o'r ffrwydrad – byddai hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o ganol y dref ac ardal yn ymestyn y tu hwnt i Ysbyty Bronglais. Byddai'r danchwa'n torri tympan y glust ac yn ffrwydro'r ysgyfaint. Mae'n bosib y byddai pobl yn yr awyr agored a rhai dan do yn cael eu codi a'u hyrddio yn erbyn waliau gan y danchwa a byddai adeiladau a niweidiwyd a theilchion yn hedfan drwy'r awyr yn cwympo ar rai oedd yn dal yn fyw a'u hanafu.

#### Gwynt fel Corwynt

Yng nghanol y dref (radiws o 400m) byddai unrhyw adeiladau neu goed a oedd yn dal i sefyll yn cael eu dymchwel a byddai pobl a oedd wedi eu dal yn yr awyr agored mor bell i ffwrdd â Waun Fawr a Llanbadarn Fawr yn cael eu sgubo ymaith yn y gwynt, a byddai'r rhai dan do yn cael eu malu wrth i adeiladau syrthio, eu clwyfo gan wydr toredig yn hedfan drwy'r awyr neu'n cael eu mygu gan lwch. Mae'n annhebyg iawn y gallai unrhyw berson o fewn radiws o 1500m i'r ffrwydrad oroesi.

#### Ymbelydredd

O fewn deuddydd neu dridiau, byddai unrhyw un na chafodd ei ladd gan effeithiau uniongyrchol y danchwa wedi marw o salwch ymbelydrol.

Byddai'r prifwyntoedd gorllewinol wedi cario cwmwl o lwch ymbelydrol i'r dwyrain i Aberystwyth, gyda'r pellter a'r cyflymdra'n dibynnu ar y tywydd. Ni fyddai'r deunydd ymbelydrol yn parchu unrhyw ffiniau daearyddol a byddai llawer o'r llygredd yn para miloedd o flynyddoedd.

#### Problemau eraill

Mae'r dirgryniad electromagnetig a gynhyrchir gan unrhyw ffrwydrad niwclear yn effeithio ar systemau cyfathrebu ar dir, ar fôr ac yn yr awyr. Ni fyddai Ysbyty Bronglais wedi goroesi a byddai'n annhebyg iawn fod unrhyw un o'r staff wedi goroesi heb gael niwed. Ni fyddai'r gwasanaethau brys yn gallu gweithredu. Hyd yn oed pe bai chwarter poblogaeth y dref wedi goroesi, ychydig iawn o gymorth meddygol fyddai wrth law ar eu cyfer.

#### Mater brys nid breuddwyd

Mae gweddill yr hanes yma'n rhywbeth ar gyfer ein hunllefau a'n dychymyg. I'r rheini ohonom sy'n byw ac yn gweithio yn Aberystwyth, yn mynychu ysgolion a'r brifysgol, magu plant a gobeithio am ddyfodol iachus a chyfiawn i'n ffrindiau a'n teuluoedd a phobl ym mhob man, mae'n annioddefol hyd yn oed dychmygu effeithiau un arf niwclear 'defnyddiadwy' ar ein tref.

Mae hefyd yn amhosib meddwl am y fath arf yn cael ei ddefnyddio yn ein henw ni ar unrhyw grwp arall, unrhyw fam, tad, plentyn, brawd neu chwaer – *unrhyw le arall yn y byd*. Yn y pen draw, rhaid i ni wneud yn siwr nad oes neb yn cael eu twyllo gan y siarad milwrol a gwleidyddol ynglwn ag arfau niwclear 'defnyddiadwy', ac na chaiff y fath drychineb byth ddigwydd. Mae'n bryd mynd y tu hwnt i feddwl am ddefnyddio trais i ddatrys anghydfod, a mentro ar y gwaith llawer caletach o adeiladu cyfiawnder a goddefgarwch rhyngwladol ac i greu deddfau dyngarol a chyfiawn i reoli pobloedd y byd.

## Y Llywodraeth Lafur 'yn Cuddio' rhag yr Ymchwiliad i Trident

Gwrthododd y Weinyddiaeth Amddiffyn gymryd rhan yn Ymchwiliad Pwyllgor Dethol Tw'r Cyffredin ar Amddiffyn ym mis Mawrth, hyd yn oed wedi i Tony Blair addo i'r cyhoedd y "ddadl lawnaf" ar y mater. Bydd y Pwyllgor Dethol ar Amddiffyn yn cynnal cyfres o ymchwiliadau yn 2006 er mwyn "porthi'r ddadl gyhoeddus" ar ddyfodol arfau niwclear Prydain. Mae'r llywodraeth, fodd bynnag, wedi gwrthod cyhoeddi ei hastudiaethau ar olynydd i Trident hyd yn hyn.

Roedd Kate Hudson, Cadeirydd CND Prydeinig, ymhlith y rhai a alwyd i dystio yn Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol. Dywedodd Kate, gan nad oedd Prydain mwyach yn wynebu unrhyw fygythiad gan wlad ag arfau niwclear, a gan fod Tony Blair wedi addef nad oedd arfau niwclear o ddefnydd yn erbyn brawychiaeth, y dylai Prydain "fod yn ei lleoli ei hun fel byd-arweinydd dros heddwch drwy derfynu ei rhaglen arfau niwclear".

Gallwch gael gwybod mwy am y wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllhor Dethol ar Amddiffyn ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth Niwclear: www.nuclearinfo.org

**heddweithredu:**

**Gofynnwch i'r AS alw am gyhoeddi Ymchwil y Llywodraeth ar Olynydd i Trident**

**Gofynnwch iddo/iddi arwyddo Cynnig Boreol (EDM) 1113 os na wnaeth hyn eisoes:**

**Trident**

**Fod y Tw hwn yn croesawu penderfyniad y Llywodraeth i lansio dadl gyhoeddus ar ddyfodol arfau niwclear y Deyrnas Unedig; yn cydnabod fod yr amgylchiadau rhyngwladol yn wahanol iawn i'r rhai oedd yn bodoli pan esgorwyd ar y system daflegrau Trident bresennol, ei dylunio a'i hadeiladu; yn ymwybodol fod nifer o opsiynau ar gael i'r Llywodraeth wrth iddo ystyried olynydd i'r system gyfredol; ac, felly, yn galw ar y Llywodraeth i gyhoeddi papur ymgynghori yn amlinellu'r dadleuon, yn cynnwys asesiadau bygythiad, amcangyfrif o'r costau, a'r holl opsiynau niwclear a di-niwclear, fel sail i'r drafodaeth gyhoeddus.**

**Gweler: www.edmi.parliament.uk am restr lawn o'r rhai sydd wedi arwyddo neu i ddarganfod pa Gynigion Boroeol mae'ch AS eisoes wedi eu harwyddo. Os nad ydych ar-lein, da chi, cysylltwch ag CND Cymru am y wybodaeth.**

# DIM dedfrydau am oes i filwyr sy'n gwrthod bod yn feddianwyr

**Mae Mesur y Lluoedd Arfog – sydd ar ei ffordd drwy'r Senedd ar hyn o bryd – yn gosod cosb hallt ar filwyr sy'n gwrthod cymryd rhan mewn meddiannu gwlad arall yn filwrol. Mae Adran 8 o'r mesur – sydd heb gael nemor ddim sylw yn y wasg – yn diffinio gwrthgilio (*desertion*) mewn modd llawer mwy caeth: gall milwyr sy'n bwriadu gwrthod gwasanaethu mewn cyrch i "feddiannu gwlad neu diriogaeth tramor yn filwrol" gael eu carcharu am oes.**

### Ailsgrifennu'r gyfraith ryngwladol

Aethpwyd ati i ddiwygio'r gyfraith filwrol mor sylfaenol ar adeg pan mae'r nifer o filwyr sy'n cilio o'r fyddin Brydeinig wedi treblu ers y cyrch ar Irac, ac mae'n ymosodiad amlwg ar y mudiad cynyddol o ddynion a menywod yn y lluoedd arfog sy'n gwrthod bod yn rhan o ryfeloedd yn Irac, Afghanistan a mannau eraill. Mae'n mynd yn groes i Siarter Nuremberg sy'n gorseddu mewn cyfraith ryngwladol gyfrifoldeb personol pob un ohonom i wrthod ufuddhau i orchmynion anghyfreithlon ac anfoesol gan unrhyw lywodraeth. Ar yr un pryd, mae'r Ysgrifennydd Amddiffyn, John Reid, yn annog ailsgrifennu Confensiwn Genefa i gyfreithloni gweithredu'n filwrol o flaen llaw.

**Siarter Nuremberg, Erthygl 8: "Ni fydd y ffaith fod y diffynnydd yn gweithredu yn unol â gorchymyn ei Lywodraeth neu swyddog uwch yn ei ryddhau o gyfrifoldeb."**

Yn gynnar ym mis Ebrill, dywedodd yr Awyr Lefftenant Malcolm Kendall-Smith, meddyg yn yr Awyrlu a oedd wedi ei ddwyn ger bron llys milwrol am wrthod mynd i Irac, y credai fod yr Unol Daleithau gyfwerth yn foesol â'r Almaen Natsïaidd. Roedd yn wynebu dedfryd o garchar am anufuddhau i orchymyn i fynd i Irac a phedwar gorchymyn i baratoi ar gyfer cael ei anfon yno.

### Anghyfiawnder

Mae'r naill arolwg ar ôl y llall wedi dangos gwrthwynebiad cyhoeddus anferth i'r rhyfel a'r meddiant yn Irac. Adlewyrchwyd hynny yng ngweithredoedd a barn milwyr sydd wedi gwrthod mynd i Irac neu ddychwelyd yno. Mae teuluoedd milwyr, mamau yn bennaf, wedi ymgyrchu yn erbyn lladd a chlwyfo eu ceraint a'r boblogaeth gyffredin yn Irac a mannau eraill, ac wedi mynnu y dylid dod â'r milwyr adre. Mae Adran 8 y Mesur yma yn troseddu'n ddirfawr yn erbyn hawliau dynol milwyr ac, yn enwedig, eu hawl i wrthwynebu'n gydwybodol. Mae hefyd yn mynd drwy'r Senedd ar garlam heb unrhyw drafodaeth gyhoeddus.


### heddweithredu

**Da chi, gweithredwch nawr i atal y camwedd ofnadwy yma rhag mynd yn ddeddf.**
**Ar Ebrill 13th cafodd Malcolm Kendall-Smith, Awyr Lefftenant gyda'r RAF (gweler uchod), ei garcharu am wyth mis am wrthod mynd i Irac ar y sail fod y rhyfel yn anghyfreithlon. Anfonwch eich negeseuon o gefnogaeth ato ar justin@roselaw.co.uk.**

**Sgrifennwch at eich AS yn mynnu ei fod/bod yn pleidleisio yn erbyn Adran 8. Dewch o hyd i'ch AS ac anfon ebost ato/ati drwy ddefnyddio www.writeToThem.com neu anfonwch lythyr i Dy'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA**
**Arwyddwch y ddeiseb ar Petition on Line http://www.petitiononline.com/UKArmedF/petition.html**
**Sgrifennwch at y wasg yn gofyn iddynt roi sylw i'r ymosodiad yma ar hawliau dynol.**

**Dwedwch wrth eich holl gysylltiadau a rhwydweithiau – yn erbyn y rhyfel, crefyddol, cymunedol, undebau llafur – am hyn. Gofynnwch iddynt gysylltu â'u ASau, y wasg ac arwyddo'r ddeiseb.**

**Dysgwch fwy ar: www.refusingtokill.net neu: 0207 209 4751 payday@paydaynet.org**



# Pŵer Niwclear – ddim ar unrhyw gyfri!

Daeth ymgynghoriad yr Adran Fasnach ac Ynni i ben ar Ebrill 14eg. Hyd yn oed o'r pellter yma, bron na fedrech deimlo anadl boeth cefnogwyr y diwydiant niwclear ar warrau'r llywodraeth. Fodd bynnag, mae'r mudiad gwrth-niwclear yng Nghymru yn dal i'w herio drwy osod cyfraniadau gwych ger bron sy'n anodd iawn dadlau yn eu herbyn. Yr un peth mae pawb yn gytûn yn ei gylch yw fod y cyfuniad o newid hinsawdd, llai o olew a nwy yn cael eu cynhyrchu o Fôr y Gogledd, a'r gostyngiad disgwyliedig yn y trydan a gynhyrchir gan orsafoedd pwer niwclear a glo presennol yn golygu nad yw 'gwneud dim byd' yn ddewis.

### heddweithredu:

**Efallai fod yr Ymgynghoriad ei hun ar ben, ond dydy hi byth yn rhy hwyr i roi gwybod i'ch AS, AC neu weinidogion y llywodraeth beth yw'ch barn ynglwn â phwer niwclear.**

**5 rheswm pam nad ydy pwer niwclear yn ateb i newid hinsawdd:**

1. **Mae defnyddio deunydd ymbelydrol i unrhyw ddiben – gwneud bomiau neu gynhyrchu trydan – yn creu gwastraff a fydd yn beryglus am ddegau o filoedd o flynyddoedd. Bu'r diwydiant niwclear yn cynhyrchu gwastraff ers 50 mlynedd ac ni wyr gwyddonwyr sut i ymdrin ag e mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy.**
2. **Cafodd pwer niwclear ei ddefnyddio ar gyfer rhaglenni arfau niwclear dirgel gan sawl llywodraeth – yn cynnwys y llywodraeth Brydeinig yn y 1950au.**
3. **Mae gorsafoedd pwer niwclear a chludo tanwydd a gwastraff niwclear o fan i fan yn cynnig targadau delfrydol ar gyfer ymosodiadau gan frawychwyr.**
4. **Mae etifeddiaeth Chernobyl yn profi peryglon anferth pwer niwclear. Efallai fod y perygl y bydd damwain yn digwydd yn fach ond os digwydd, gall y canlyniadau fod yn enfawr.**
5. **Nid yw pwer niwclear yn 'rhydd o allyrrant carbon'. Defnyddir tanwydd ffosiledig – wrth gloddio a chludo'r mwyn wraniwm, hyd at brosesu gwastraff niwclear.**

**Mae pwer niwclear yn ddargyfeiriad peryglus oddi ar y llwybr tuag at ateb i broblem newid hinsawdd. Dylem fod yn canolbwyntio'n hadnoddau'n ar ynni adnewyddadwy a chadwraeth ynni.**

# Wylfa: Sgitsoffrenia Niwclear

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Peter Hain, wedi lleisio pryderon difrifol ar goedd ynglwn â phwer niwclear, ac eto mae wedi cefnogi ymestyn oes gorsaf bwer niwclear Wylfa. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi awgrymu y carai weld ymestyn oes Wylfa o hyd at bum nlynedd wedi 2010. Mae Cyngor Ynys Môn hefyd wedi galw am estyniad o ddwy flynedd gan y gallai cau Wylfa hefyd achosi cau gwaith 'Anglesey Aluminium' sydd wedi dibynnu ar Wylfa am ei bwer ers 1971. Mae Fforwm Ddi-Niwclear Awdurdodau Lleol Cymru yn galw am i swyddi newydd mewn technolegau cynhyrchu trydan di-niwclear gael eu creu ar yr ynys.

### heddweithredu:

Mae Pobl Atal Wylfa B (PAWB) yn galw ar y llywodraeth i ddweud:
Na i ymestyn oes weithredol adweithyddion niwclear 35-mlwydd oed Wylfa; Na i adweithyddion newydd i gymryd lle adweithyddion Wylfa, neu unrhyw le arall yng Nghymru neu Brydain; Na i grei mwy o wastraff ymbelydrol
a dweud:
Ie i ddyfodol mewn ynni di-niwclear carbon-isel i Ynys Môn ac
Ie i ddyfodol amgylcheddol gynaliadwy
I ymuno ag ymgyrch PAWB neu i gael gwybod mwy, cysylltwch â nhw yn: Tw Cerrig, Llangoed, Ynys Môn LL58 8SA.

# adnoddau

## dyddiadau dyddiadur

**Mai 15fed POB MAN Dydd y Gwrthwynebwyr Cydwybodol**

**Mai 6ed POB MAN** 2pm Dydd Rhyngwladol o Weithredu yn erbyn ymosodiad ar Iran. Mae'r Pentagon wedi dweud na fydd yn gwrthod ystyried defnyddio arfau niwclear tactegol yn erbyn canolfannau prosesu niwclear Iran. Gofynnir i bob grup drefnu protestiadau awr-ginio, efallai gyda 'die-ins', y diwrnod hwnnw yng nghanol trefi a dinasoedd ledled y wlad. **http://www.stopwar.org.uk/060506.htm**

**Mai 13eg LLANDRINDOD Cyfarfod Cyngor CND Cymru** 11.00am – 4.00pm. Croeso cynnes i holl aelodau CND Cymru a chynrychiolwyr grwpiau cysylltiedig. Cysylltwch ag CND Cymru am fwy o wybodaeth (gweler cysylltiadau).

**Mai 4ydd LLUNDAIN CCB BAe Systems** BAe yw un o'r prif gwmnïau sy'n ymelwa ar ryfel. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio ar gytundeb gwerth $3.5bn i ailwampio'r cerbydau ymladd Bradley sy'n cael eu defnyddio yn Irac ac Afghanistan. **Cysyllter â: 020 7281 0297 neu ymholiadau ebost ar enquiries@caat.org.uk Gweler hefyd http://www.caat.org.uk/**

**Mai 15fed BANGOR Faslane 365** adroddiad/trafodaeth/gweithdy gydag Angie Zelter, 6.30pm Y Ffynnon, Bangor Uchaf. Cysyllter â: Grup Heddwch a Chyfiawnder Bangor 01248 490 715.

**Mai 29ain - Mehefin 3ydd SIR DDINBYCH Eisteddfod yr Urdd** Bydd angen help siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ar stondin CND Cymru, cysyllter â Brian Jones: (01792) 830 330.

**Gorffennaf 4ydd FELTWELL: PARTI ANNIBYNIAETH ODDI WRTH AMERICA** tu allan i ganolfan gyfathrebu gofod yr UD yn Feltwell (ger canolfan arfau niwclear yr UD yn Lakenheath, East Anglia) am 6pm. Dawns y Tangnefeddwyr, cabaret a thân gwyllt d/o y Pentagon am 10pm. Cysyllter â Mell ar 01986 892723.

**Gorffennaf 6th – 7th ABERPORTH Parc Ceredigion, Aberporth.** Mae **Digwyddiad Cerbydau Hedfan Di-berson (UAV) 2006** "yn addo bod hyd yn oed yn fwy ac yn well!" Mae'r digwyddiad dethol 'gwahoddiad-yn-unig' yma yn dechrau gyda diwrnod ymarfer ar gyfer arddangoswyr ym Mharc Aberporth ar y 6ed o Orffennaf, gyda Chinio Gala i'r Pwysigion yng Nghastell Caerdydd i ddilyn y noson honno. Mae cerbydau UAV yn cael eu datblygu gan gwmnïau arfau i ddibenion milwrol yn bennaf fel y gellir ysbïo a thargedu o hirbell. Dewch i weld sut mae'ch trethi'n cael eu gwario yng Nghymru. Cynaliadwy? Pahh! Ar Orffennaf y 7fed bydd Rhodri Morgan, Prif Weinidog y Cynulliad, yn croesawu "Gwesteion a wahoddwyd yn arbennig o ddiwydiant rhyngwladol, llywodraethau, sefydliadau milwrol ac academaidd" i ddigwyddiad yn Aberporth.

**Syniadau ar gyfer gweithredu – cysylltwch â heddwch@cndcymru.org** Gorffenaf 8th Cyfarfod Blynyddol CND Cymru. Cysylltwch CND Cymru am mwy gwybodaeth

**Awst 5ed – 12fed EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ABERTAWE A'R CYLCH, safle hen waith dur** Felindre, ger Abertawe. Bydd angen help siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ar stondin CND Cymru, cysyllter â Brian Jones: (01792) 830 330.

**Awst 5ed POB MAN Dydd Hiroshima.**

**Awst 9fed POB MAN Dydd Nagasaki.**

## cysylltiadau

**Abergavenny Menywod mewn Du,**
Katrina Gass,
1, Regent Street,
Y Fenni, NP7 5BS
(01873) 855 760
katrinagass@yahoo.co.uk

**Aberystwyth Forwm Heddwch a Chyfiawnder[a Social Forum Cymru],**
Banc Y Môr,
Blaenplwyf,
Aberystwyth, SY23 4DW
(01970) 610 185
kjm04@aber.ac.uk

**Bangor Grwp Heddwch a Chyfiawnder ,**
Ty Cerrig, Llangoed,
Beaumaris,
Ynys Môn LL58 8SA
(01248) 490 715
phil@tycerrig1.freeserve.co.uk

**Borders Heddwch a Chyfiawnder ,**
4, Old School Cottages,
St.Martins,
Croesowallt SY11 3AS

**Brecon Grwp Heddwch a Chyfiawnder,**
Bwthyn Jasmine , Pennorth,
Aberhonddu LD3 7EX
(01874) 658 564
Mike.Gatehouse@phonecoop.coop

**Bridgend CND,**
c/o George Crabb,
1, Ty Woodstock ,
Stryd Uchel,
Pontfaen, CF7 7AF
(01446) 7744 52
georgecrabb@ybontfaen.frees.rve.co.uk

**Bro Emlyn Grwp Heddwch a Chyfiawnder,**
c/oHarry Rogers,
Pencnwcau, Aberbanc,
Llandysul SA44 5NP
(01559) 371 201
harry@wildwestwales.com

**Caerffili CND,**
c/o Ray Davies
172, Heol Pandy,
Bedwas, Caerffili, CF83 8EP
(02920) 889 514
raydavies@caerphilly.gov.uk

**Cardiff Chyfiawnder a Heddwch ,**
c/o Frances Ballin,
47, Llys Millrace ,
Llysfaen,
Caerdydd, CF4 5UQ
(02920) 765 077

**Cardiff Social Forum,**
c/o Leanne Wood
(01443) 421 691

**Cardiff Menywod mewn Du,**
Sian Edwards,
11, Stryd Alfred ,
Y Rhadd,
Caerdydd CF2 4TY
sian@derwen.demon.co.uk

**Cymdeithas y Cymod,**
3, Tai Minffordd,
Rhostryfan,
Caernarfon, LL54 7NF
post@cymdeithasycymod.org.uk

**Cynefin y Werin,**
Canolfan Rhyngwladol,
Caerdydd CF10 3AP
(02920) 22 85 49

**Cadwch Cymru Di-Niwcle CyD Sir Benfro,**
Span Arts,
Arberth,
Sir Benfro SA67 7AG
07792 036230
admin@keepwalesnuclearfree.org.uk

**Knighton Grwp Heddwch a Chyfiawnder**
c/o Mary Davies,
Lower Skybarry Cottage,
Knighton, LD7 ITW
amdskyborry@hotmail.com
(01547) 528 833

**Ymgyrch Isel- Ymbelydredd,**
The Knoll,
Montpellier Road,
Llandrindod, LD1 5LW
bramhall@llrc.org

**Llandrindod CND,**
c/o Vi Shenton,
Southover,
Beaufort Road,
Llandrindod, LD1 5EE
(01597) 82 9303

**Llandudno Forwm Heddwch,**
c/o Graham Morgan,
8, Grosvenor Court,
Vaughan Street,
Llandudno LL30 1WE
morganpostcards@btinternet.com

**Llandiloes Grwp Heddwch a Chyfiawnder,**
c/o Rachel Gaster,
Ty Bach, Glynbrochan,
Llanidloes SY18 6PL
raga@phonecoop.coop

**Croesowallt Grwp Heddwch a Chyfiawnder ,**
c/o George Miller,
10, Upper Church Street,
Oswestry, SY11 2AE
(01691) 658 330
george.miller@virgin.net

**Canolfan Heddwch a Chyfiawnder,**
35, Kingsmill Road,
Wrexham, LL13 8NH

**Mala Heddwch,**
122, Clydach Road,
Morriston,
Swansea SA6 6QB
www.peacemala.org.uk

**Penarth CAAT Cristnogol,**
Theresa Mitchell,
11, Maillards Haven,
Lower Penarth CF64 5RF
(02920) 705 458
Tree.Mitchell@btopenworld.com

**Rhondda Cynon Taf Atal y Rhyfel,**
Dominic Macaskill,
UNISON Office,
Graig,
Y Stryd Uchel,
Pontypridd CF37 1JN

**Swansea CND,**
c/o 72, Heol Gwyn,
Yr Alltwen,
Pontardawe,
SA8 3AN

**Cynghrair wrth-Niwclear Cymru ,**
PO Bocs 1,
Llandrindod, LD1 5AA
Powys
(01982) 570 362
hughrichards@gn.apc.org

**Wrecsam Forwm Heddwch a Chyfiawnder ,**
C/o Genny Bove,
Rock Cottage,
49,Heol Westminster,
Moss,
Wrecsam LL11 6DH
(0845) 330 4505
xxx@genny.force9.co.uk

## Ymunwch â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear!

**Fu 'na 'rioed amser pwysicach i fod yn rhan o lais rheswm a phwyll yng Nghymru. Ymunwch ag CND Cymru a chefnogwch y mudiad ymgyrchu di-blaid wleidyddol mwyaf ar gyfer pobl gyffredin yn y wlad, Mae CND Cymru yn cwmpasu grwpiau ac unigolion a all gyfrangi ar ba lefel a fynnant – o ddarllen 'heddwch' a thrafod materion gyda ffrindiau a chydweithwyr, sgrifennu llythyron, mynd ar wylnosau tawel a phrotestiadau, hyd at fynd ati i ddiarfogi taflegryn yn ddi-drais.!**
**Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i adeiladu byd cynaliadwy wedi ei reoli gan heddwch a chyfiawnder gwirioneddol. Gadewch i ni wneud arfau dinistr torfol – a'r esgusodion amdanynt – yn rhywbeth o'r gorffennol.**
**Pobl gyffredin yw'r arch-bwer sy'n cael ei anwybyddu a'i ddiystyru yn y byd!**

Cyfraddau Aelodau: £26 pâr cyflogedig; £21 oedolyn; £8 digyflog, pensiynwyr, ieuenctid a myfyrwyr.
Sieciau'n daladwy i 'CND Cymru'.
Monica Bradley, Ysgrifennydd Aelodaeth, CND Cymru, 7 Brookside Terrace, Mochdre, Y Drenewydd SY16 4JG
Ffôn: (01686) 626 350




## heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**

**Golygydd:**
Jill Stallard
(01495) 773 180
heddwch@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
(01591) 610 844
redkiteprint@thefreeflyer.com


## cysylltiadau cnd cymru

**cadeirydd:**
Jill Evans MEP.
(01824)709 700
jievans@europarl.eu.int

**is-gaderyddion**
Brian Jones
(01792) 830 330
Brian.Jones@nptc.ac.uk

Olwen Davies (y canolbarth)
(01970) 611 994

Ray Davies (de cymru)
(029 20) 889 514

**aelodaeth &aelodau cysylltiol:**
Monica Bradley
7, Brook Terrace,
Mochdre, Drenewydd SY16 4JG (01686) 626 350
aelodaeth@cndcymru.org

**masnachu**
Jan Jones
(01792)830 330

**trysorydd**
Jean Bryant,
16,Clôs
Ty'n y Cymer,
Porth, Y Rhondda CF39 9DE

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**
Jill Stallard, Y Drain Gwynion, Heol yr Eglwys, Talywaun, Pontypwl NP4 7EF
(01495) 773 180
jill@cndcymru.org